YSGOL GYFUN ABERAERON
ABERAERON COMPREHENSIVE SCHOOL

Stryd Y Fro
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0DT

01545 570217
Ffacs / Fax: 01545 570183
swyddfa@ygaberaeron.org.uk

Pennaeth: Owain Jones

Annwyl Riant / Warcheidwad Medi 2016

Ar ddechrau blwyddyn dymunaf ddod â rhai dyddiadau a gweithgareddau ysgol i'ch sylw.

28 Medi	**"Arlwyo heb Arian" yn mynd yn fyw**
10 Hyd	Noson Agored i Flynyddoedd 4/5 a 6
	Gweithdai i Fl 12/13 (prynhawn)
	Diwrnod BAC i Fl 10
12 Hyd	Gweithdy adolygu i Fl 10/11 a cyflwyniad i rieni 4.30-5.30p.m.
13 Hyd	Diwrnod BAC i Fl 13
14 Hyd	**HMS**
21 Hyd	Gwaith Maes Daearyddiaeth i Fl 12
	Taith Gwyddoniaeth Bl 9 i Lundain (Natural History Museum)
24/28 Hyd	**Hanner Tymor**
2 Tach	Gweithdy "Talk the Talk" i Fl 9
3 Tach	Gweithdy Bwrdd Iechyd i Fl 11/12
2/4 Tach	Arholiadau TGAU Mathemateg: papur Rhifedd
7-11 Tach	Taith Erasmus i Sbaen
8/10 Tach	Arholiad Mathemateg Bl 11
9 Tach	Lluniau Bl 7 a 10
	Perfformiad "Shakespeare Schools"
10 Tach	Noson Rieni/Gwarcheidwaid Bl 7 (3.45-6.15p.m)
21 Tach	Arholiad Siarad a Gwrando Saesneg i Fl 9
24 Tach	Noson Rieni/Gwarcheidwaid Bl 10 (3.45-6.15p.m.)
25 Tach	Adroddiadau Interim Blyn 7/8/9/10
30 Tach	Taith STEM i Brifysgol Aberystwyth i Fl 9
1-9 Rhag	Arholiadau Mewnol Blyn 11/12/13
14 Rhag	Gweithdai i Fl 9 "Eich dyfodol eich dewis"
15 Rhag	Diwrnod BAC Bl 13
16 Rhag	Gwasanaeth Carolau
	Diwedd Tymor
3 Ion	**Dechrau Tymor**

Dyddiadau pwysig eraill yn ystod y flwyddyn

18 Ion	Diwrnod ABCh a chyfweliadau Ffug i Fl 11
20 Ion	Dosbarthu Adroddiadau Bl 11/12/13
26 Ion	Noson Rieni/Gwarcheidwaid Bl 11 – (3.45-6.15yh)
30 Ion	Arholiad Llafar Saesneg i Fl 10/11
2 Chwe	Noson Rieni/Gwarcheidwaid Bl 12/13 – (3.45-6.15yh)

2 Chwe	Diwrnod BAC i Fl 11
8 Chwe	Y Cam Pwysig nesaf Bl 11
15 Chwe	Y Cam Pwysig nesaf Bl 9
17 Chwe	Eisteddfod yr Ysgol
20/24 Chwe	**Hanner Tymor**
28 Chwe	Cynhadledd Gyrfaoedd
1 Maw	Cynhadledd BAC i Fl 12
3 Maw	Gwyl Offerynnol yr Urdd
	Gwaith Maes Daearyddiaeth Bl 12
9 Maw	Noson Rieni/Gwarcheidwaid Bl 9 – (3.45-6.15yh)
10 Maw	Eisteddfod Ddawns yr Urdd
13 Maw	**HMS**
14/22 Maw	Arholiadau Bl 10
16 Maw	Noson Rieni/Gwarcheidwaid Bl 8 – (3.45-6.15yh)
21 Maw	Arholiad Ymarferol Ffiseg i Fl 13
24 Maw	Eisteddfod Sir ym Mhontrhydfendigaid
3-7 Ebr	Arholiadau Mewnol Bl 9
	Taith Erasmus i Iwerddon
4 Ebr	Ffair UCAS i Fl 12
	Arholiad Ymarferol Bioleg i Fl 13
5 Ebr	Noson Wobrwyo
6 Ebr	Arholiad Ymarferol Bioleg i Fl 13
8-9 Ebr	Alldaith Arian Gwobr Dug Caeredin i Fl 10
10/21 Ebrill	**Gwyliau Pasg**
24 Ebr	**HMS**
25 Ebr	**Dechrau tymor i ddisgyblion**
28 Ebr	Adroddiadau Bl 10
1 Mai	**Gŵyl Fai**
3 Mai	Arholiad Ymarferol Cemeg i Fl 13
5 Mai	Arholiad Ymarferol Cemeg i Fl 13
19 Mai	Adroddiadau Bl 9
9 Mai / 20 Meh	**Cyfnod Arholiadau UG / U / TGAU**
29 Mai /2 Meh	**Hanner Tymor**

16 Meh	Adroddiadau Bl 9
21 Meh	Bl 11 PROM
22-25 Meh	Alldaith Gwobr Aur Dug Caeredin i Fl 12
23-30 Meh	Arholiadau Bl. 7/8
26-30 Meh	Gweithgareddau BAC i Fl 12
1-2 Gorff	Ymarfer Alldaith Gwobr Efydd Dug Caeredin i Fl 9
3-6 Gorff	Cyfarfodydd UCAS Bl 12
	Cyfnod BAC i Fl 10
7 Gorff	Mabolgampau
10/12Gorff	Alldaith Gwobr Arian Dug Caeredin i Fl 10
11 Gorff	Adroddiadau Bl 7/8
15/19 Gorff	Alldaith Gwobr Aur Dug Caeredin i Fl 12
17-21 Gorff	Profiad Gwaith i Fl 10/12
21/25 Gorff	Taith i Ffrainc
21 Gorff	Diwedd Tymor

Newidiadau i dîm arwain yr ysgol:

Mr Owain Jones – Pennaeth
Mrs Anwen Davies – Dirprwy Bennaeth

Mae'r canlynol wedi ymuno a staff yr ysgol:

Adrian Laurence – Athro Hanes
Debra Elsaesser – Athrawes Dylunio a Thechnoleg dros dro
Karen Evans – Cynorthwyydd Dysgu - Canolfan y Môr
Donna Chandler – Cynorthwyydd Dysgu - Canolfan y Môr
Gerwyn Davies – Cynorthwyydd Dysgu - Canolfan y Môr
Gwenllian Lockwood – Cynorthwyydd Dysgu - Canolfan y Môr
Felicity Hunt - Cynorthwyydd Dysgu - Canolfan y Môr
Carol Wood - Cynorthwyydd Dysgu - Canolfan y Môr
Helen Worth - Cynorthwyydd Dysgu
Marian Davies - Cynorthwyydd Dysgu
John Lynch – Cynorthwyydd Dysgu
Jacqueline Wilson – Cynorthwyydd Dysgu

Apwyntiadau Mewnol

Manon Dafydd - Arweinydd Cynnydd
Helen Crouch – Swyddog Llais y Dysgwr a chyswllt Ysgol / Cartref
Mared Vaughan – Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg

Gadawodd wyth aelod o staff ar ddiwedd tymor yr haf. Hoffwn ddiolch iddynt am eu gwaith caled a'u cyfraniad gwerthfawr a dymuno'n dda iddynt ar gyfer y dyfodol

Anne Ebenezer – Athrawes Bioleg
Sarah Hamilton – Athrawes Hanes a Phennaeth Bl 8
Nia Jones – Pennaeth Cynorthwyol
Edward Turner – Cynorthwydd Dysgu
Catrin Manjang – Adran Ymyrraeth
Bethan Howells - Adran Ymyrraeth
Gillian Jones - Adran Ymyrraeth

Canlyniadau Arholiadau

Hoffwn longyfarch y disgyblion ar eu canlyniadau yn yr arholiadau Safon A a TGAU. Mae'r tablau isod yn crynhoi perfformiad yr Ysgol (dros-dro).

Safon A

	Ysgol	Cymru
A*/E	99.1%	97.3%
A*/C	83.5%	73.8%
A* - A	28%	22.7%

Bagloriaeth Cymreig

	Ysgol	Cymru
A*A	64%	41%
A*- C	100%	84.4%

TGAU

	Ysgol	Ceredigion
L2+ 5 TGAU A* - C gan gynnwys Mathemateg a Saesneg neu Cymraeg.	71%	70.7%
L2 5 TGAU A*-C	95.7%	90.3%
5 TGAU A* - G	98.9%	96.4%

Presenoldeb Ysgol

Dengys y tabl ystadegau'r blynyddoedd unigol a chredaf yn gryf bod cysylltiad amlwg rhwng lefel presenoldeb a chanlyniadau arholiadau

Blwyddyn	% Presenoldeb
7	95.3%
8	94.5%
9	94.2%
10	96.3%
11	93.7%
Cyfanswm	94.7%

Hoffwn eich atgoffa hefyd taw fel rheol **yr unig reswm y dylai disgyblion golli ysgol yw os ydynt yn rhy sâl i fynychu'r ysgol.** Dylid ceisio trefnu apwyntiadau gyda'r deintydd neu feddyg teulu tu allan i oriau Ysgol lle'n bosib. Os yw eich plentyn yn absenol byddwn yn gwerthfawrogi derbyn neges ffôn cyn 10.00 o'r gloch ar **ddiwrnod cyntaf** absenoldeb eich plentyn. **Os na fyddwn yn derbyn unrhyw wybodaeth byddwn yn cysylltu â rhieni yn ystod y bore er mwyn cadarnhau'r rheswm dros yr absenoldeb.** Mae'n bwysig i'r ysgol wybod yn union ble mae pob plentyn er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Amddiffyn Plant.
Pan ddaw eich plentyn nôl i'r ysgol bydd angen nodyn i egluro'n fanylach y rheswm dros yr absenoldeb. Os fydd unrhyw amgylchiadau eraill yn achosi i'ch plentyn golli diwrnod o ysgol yna mae'n bwysig trafod hyn, ymlaen llaw os yn bosibl, gyda'r Pennaeth Blwyddyn er mwyn penderfynu a ellir awdurdodi'r absenoldeb ai peidio. ***Bydd absenoldebau a achosir gan ddisgyblion yn cymryd gwyliau adeg tymor, yn cael eu hystyried fel rhai anawdurdodedig fel y crybwyll gan bolisi'r chwe sir yng Nghonsortiwm Ne-Orllewin a Chanolbarth Cymru***.

Swyddogion Newydd

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar gael eu hethol; Prif Ferch; Rachel Willis a Prif Fachgen; Sion Evans. Swyddogion ar gyfer eleni - Elliw Davies, Ifan Davies, James Droy, Gwenllian Evans, Owen Evans, Megan Jones, Caryl Morris. Dymuniadau gorau iddynt yn eu swyddi.

Côd Ymddygiad ar y Bysiau Ysgol

Byddwn yn ddiolchgar pe medrwch drafod y rheolau canlynol gyda'ch plentyn/plant er mwyn sicrhau diogelwch pawb sy'n teithio ar y bws.

1. Rhaid i'r disgyblion ufuddhau i orchmynion y gyrrwr bws.
2. **Ceir gwregysau diogelwch ar fysiau ysgol penodedig a rhaid i ddisgyblion eu gwisgo bob amser**
3. Ni ddylai'r disgyblion byth dynnu sylw'r gyrrwr tra ei fod ef neu hi yn gyrru.
4. Does neb i ysmygu
5. Os yw disgyblion yn achosi difrod i'r bws bydd disgwyl i rieni dalu'n llawn am y difrod.
6. Ni ddylid gadael sbwriel ar y bws. Ni chaniateir caniau pop ar y bws.
7. Ni ddylid taflu unrhywbeth allan o'r bws ar unrhyw gyfri.

Bydd disgyblion sy'n camymddwyn yn debygol o gael eu gwahardd rhag teithio ar fysiau ysgol a bydd rhaid i rieni wneud trefniadau eraill i'w cludo nôl a blaen o'r ysgol.

Rhieni sy'n dod â disgyblion i'r ysgol

Hoffwn atgoffa rhieni sy'n cludo eu plant yn ôl a blaen o'r ysgol bod rhaid eu gadael a'u casglu ar waelod rhiw'r ysgol yn Stryd y Fro neu i ddilyn y system un ffordd trwy'r arhosfan bysiau a gollwng y disgyblion gerllaw'r ffreutur. ***Ni ddylid gyrru ceir lan rhiw'r ysgol a gollwng plant ger y drofan gan y gallai hyn beryglu diogelwch y disgyblion ar gampws yr ysgol.***

Rhaid cofio mai 10 milltir yr awr yw'r uwchsafswm cyflymdra ar y safle.

Cau'r ysgol mewn Argyfwng

Rwyf am dynnu eich sylw at y ffaith y gall fod yn angenrheidiol weithiau i gau'r ysgol ar fyr rybudd. Bydd hyn, wrth gwrs, ond yn digwydd mewn **argyfwng,** er enghraifft mewn **achos o dywydd garw** neu o ganlyniad i broblemau gwres yn yr ysgol. Rwyf yn hollol ymwybodol y gall y drefn yma achosi problemau i rieni yn enwedig os nad oes rhywun gartref yn ystod oriau ysgol. Byddwn yn ddiolchgar felly pe baech yn trafod y mater hwn ac yn gwneud trefniadau priodol gyda'ch mab/merch.

Lluniau o'r disgyblion

Yn achlysurol, mae'n rhaid cymryd lluniau o'r disgyblion e.e. i hysbysebu yn y papurau lleol, yn y dosbarth fel prawf o weithgareddau, ac yn y blaen. Os nad ydych eisiau i hyn ddigwydd a wnewch chi ddangos hyn ar y rhwyglen ar waelod y llythyr. Bydd rhaid recordio disgyblion Bl 10 ac 11 yn ystod eu cyflwyniadau llafar Cymraeg a Saesneg – mae hyn yn ofyniad gan y bwrdd arholi.

Ffôn Symudol

Hoffwn eich atgoffa y gall disgyblion ddod â ffôn symudol i'r ysgol os ydynt am ei **ddefnyddio ar ôl oriau ysgol.** Fodd bynnag ni chaniateir **ei ddefnydd yn yr ysgol** ac ni fyddwn yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am ffonau sy'n cael eu difrodi neu'u colli yn yr ysgol. Ni chaniateir i ddisgyblion ddod ag IPOD's, chwaraewyr MP3, na chlustffonau i'r ysgol.

Lleihau Papur

Rydym yn ymdrechu i leihau faint o bapur a ddefnyddir yn ystod y tymor. Felly, os ydych yn hapus i dderbyn gwybodaeth drwy e-bost yna marciwch y bocs isod (os nad oes gennych fynediad i e-bost nodwch a byddwn yn danfon copi papur allan).

Yn olaf hoffwn groesawu disgyblion a rhieni newydd Blwyddyn 7 i gymuned yr ysgol. Gobeithio y byddwch yn ymgartrefu'n gyflym ac y byddwch yn mwynhau profiadau'r ysgol uwchradd. Dymunaf yn dda i bob un o ddisgyblion yr ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd gyda'r nod o adeiladu ar lwyddiant llynedd.

Yn gywir

Owain Jones
Pennaeth

I'W DDYCHWELYD I'R ATHRO DOSBARTH (erbyn 28.9.16)

Rwyf wedi derbyn a darllen Cylchlythyr Medi 2016. Rwyf hefyd wedi trafod Ymddygiad ar y Bysiau a Chau'r Ysgol Mewn Argyfwng gyda fy mhlentyn

Os nad ydych am i'ch plentyn gael llun wedi'i dynnu yn yr ysgol, rhowch groes yn y bocs ☐

Rwyf yn hapus i dderbyn gwybodaeth o'r ysgol drwy e-bost ☐

Rwyf am dderbyn gwybodaeth o'r ysgol ar bapur ☐

Rhif ffôn symudol .....

Cyfeiriad e-bost .....

Enw'r Disgybl: ..... Dosbarth: .....

Llofnod Rhiant: ..... Dyddiad: .....